

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn Roberts

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Gorffennaf 7fed, 2015

Presennol: Alwyn Roberts (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths (is gadeirydd), Huw Antur, Arwel Lloyd Jones, Rhodri Jones, Catrin Roberts, Ian Trow, Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

1458 Croesawyd pawb a derbyniwyd ymddiheuriadau Dewi Jones, Heledd Jones a Karl Jones.

1459 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1460 Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Beryl Hughes Griffiths ym mater gwybodaeth am ganiatâd cynllunio i newidiadau yn yr Eglwys.

1461 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mehefin 9fed, 2015.

1462 Nid oedd materion yn codi o'r Cofnodion nad oedd eisoes ar yr Agenda.

1463 Adroddiad y Clerc ar faterion Mehefin:

- i. Mae'r gwaith o dorri gwair o gwmpas y groesffordd at Gynllwyd wedi ei gyflawni.
- ii. Derbyniwyd eglurhad gan Un Llais Cymru nad oes angen cyhoeddi buddiannau Cynghorwyr.
- iii. Derbyniwyd cadarnhad gan Un Llais Cymru mai 45c y filltir yw'r gyfradd costau teithio i Gynghorwyr.
- iv. Er gwybodaeth, mae angen i drigolion ffonio Galw Gwynedd yn unigol os nad ydynt wedi derbyn y biniau ail-gylchu cynllun newydd (01766 771 000).

1464 Adroddiadau:

- i. Adroddodd y Cyngorydd Sir am y sefyllfa gymhleth am statws yr ysgol gydol oes. Gresynwyd na fu ymgynghori gyda'r gymuned na'r Cynghorwyr lleol cyn cytuno i ddynodi'r ysgol newydd yn ysgol yr eglwys. Dengys hyn diffyg parch at hanes a thraddodiadau Penllyn. Cytunwyd i anfon at Gyngor Gwynedd i gefnogi'r buddsoddiad mewn addysg ym Mhenllyn ond i wrthwynebu statws eglwysig i ysgol Y Bala, gan ofyn am adolygiad o'r sefyllfa ac ymgynghoriad lawn gyda phobl leol mewn cyfnod rhesymol ar ôl i'r ysgol agor. Adroddodd Alan Jones Evans fod buddsoddiad pellach wedi ei gytuno mewn adnoddau chwaraeon ar gampws Y Bala.
GWEITHREDU: CLERC
- ii. Cyfarfod Her Gwynedd – adroddodd Huw Antur a Beryl Hughes Griffiths ar y toriadau sydd yn rhwym o ddigwydd Ebrill nesaf oherwydd diffyg cyllid. Bydd cyfarfodydd cyhoeddus eto ym Medi i geisio blaenori'r gwasanaethau mwyaf angenrheidiol.

1465 Materion Eiddo'r Cyngor

- i. Trefnwyd i symud yr elor. *GWEITHREDU: CYNGHORWYR*

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn Roberts

- ii Rhoddwyd hawl i'r Clerc baratoi'r gofod ar gyfer cadw dogfennau'r Cyngor yn y Neuadd. *GWEITHREDU: CLERC*
- iii Trafodwyd materion y Fynwent a Nyrs y Fynwent. Cytunwyd ar y Rheolau (a welir ar y wefan ac yn y Porth). *GWEITHREDU: CLERC A SWYDDIG Y FYNWENT*

1466 Materion ariannol

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol gyfredol; cytunwyd i e-bostio'r wybodaeth hwn yn chwarterol. Dywedodd y Swyddog Ariannol fod y Cyngor wedi ei gofrestru ar gyfer Pensiwn y gweithwyr gyda Mantell Gwynedd a'r Swyddog Ariannol wedi eu henwebu i dderbyn gwybodaeth.
- ii. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis ac i lythyru British Gas. *GWEITHREDU: SWYDDOG ARIANNOL*
- iii. Cytunwyd i roi ystyriaeth mewn cyfarfod ymhen chwe mis i ariannu prosiect arbennig.

1467 Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned: Nodwyd nad ydyw lefel gwasanaeth y Swyddfa Bost wedi bod yn gyflawn yn ystod yr wythnosau diwethaf a chytunwyd i ysgrifennu i fynegi pryderon y Cyngor a'r trigolion. *GWEITHREDU: CLERC*

1468 Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a soniodd fod Parc Cenedlaethol Eryri wedi diddymu'r Prydles gyda Chwmni Pum Plwy Penllyn cyf i ofalu am doiledau a meysydd parcio yn yr ardal.

1469 Gohebiaeth:

1. Parc Cenedlaethol Eryri:

- i Cadarnhawyd cymeradwyaeth Cyngorwyr i gais NP5/71/81B, sef creu estyniad i'r garej yn Rhos y Fedwen. (Ni chymerodd Karl Jones ran yn y drafodaeth ffôn)
- ii Cymeradwywyd cais NP5/71/E455 sef ymgynghoriad i osod polyn ac ateg ar linell drydan ar dir yn ymyl Stryd yr Eglwys
- iii Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i newidiadau i drosi'r eglwys yn ganolfan addysg dreftadaeth/cymunedol amlbwrpas a rhan lety hostel 12 gwely
- iv Nodwyd derbyn gwybodaeth am raglen mentora Aelodau.

2 Gwynedd:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am ail strwythuro Cofrestru yn Nwyfor a Meirionnydd a chytunwyd i ofyn am barhau'r gwasanaeth ym Mhenllyn a'i leoli yng Nghanolfan Henblas. *GWEITHREDU: CLERC*

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn Roberts

- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am ymgynghoriad sydd yn cynnwys darpariaeth llyfrgelloedd teithiol. Cytunwyd i anfon i gefnogi parhau gyda'r gwasanaeth yn Y Bala a Dolgellau ac i gefnogi parhau'r gwasanaeth Llyfrgell Deithiol. *GWEITHREDU: CLERC*
- iii. Nodwyd derbyn gwybodaeth am "Gwynedd Ni" – gwasanaeth i bobl ifanc, plant a theuluoedd.
- iv. Derbyniwyd adroddiad PEG "Llwyddo yng Ngwynedd".
- v. Derbyniwyd Rhaglen Waith mis Gorffennaf i osod arwyddion 20mya ar yr A494. Cytunwyd i ofyn am arwyddion yn dynodi mai 20mya yw'r cyflymdra uchaf a gynghorir yn y Llan. *GWEITHREDU: CLERC*
- vi. Derbyniwyd gwybodaeth am gynlluniau perchnogion newydd Bwch yn Uchaf. Cytunwyd i ddiolch am yr ohebiaeth, ond i gynghori cysylltu gyda Pharc Cenedlaethol Eryri oherwydd y gallai'r newidiadau fod a goblygiadau cydymffurfio gyda'r drwydded a roddwyd ym Mai 2014 gan Barc Cenedlaethol Eryri, sef caniatâd i 5 carafán ar lan yr afon a 15 llain pabell. *GWEITHREDU: CLERC*

3. Llywodraeth Cymru:

- i. Derbyniwyd gwahoddiad i fynychu gweithdy ar hyfforddiant cynllunio a chytunwyd i anfon atynt i fynegi bod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yn adeg anghyfleus iawn i drefnu hyfforddiant ar gyfer Cyngorwyr Meirionnydd. *GWEITHREDU: CLERC*
- ii. Nodwyd derbyn adroddiad blynyddol yr Ombwdsman.

4. Eraill:

- i. Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Eisteddfod Gylch Penllyn
- ii. Cytunodd Beryl Hughes Griffiths, Rhodri Jones, Arwel Lloyd Jones a Bethan Edwards i gynrychioli'r Cyngor Cymuned yn agoriad swyddogol bloc Llety Cefn Gwyn yng Nglan Llyn. *GWEITHREDU: CLERC*
- iii. Nodwyd llythyr Cyngor Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru yn gwahodd sylwadau ar y gwasanaeth.

Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf (1/9/15)

Amser gorffen: 9.00pm